CARDIFF COUNCIL
BEREAVEMENT SERVICES DIVISION
THORNHILL ROAD, RHIWBINA,
CARDIFF. CF14 9UA
TEL 029 20544820 FAX 029 20544848

CYNGOR CAERDYDD
ADRAN GWASANAETHAU PROFEDIGAETH
THORNHILL ROAD, RHIWBEINA,
CAERDYDD. CF14 9UA
FFÔN 029 20544820 FFACS 029 20544848

MYNWENT Y GORLLEWIN
CYNLLUN GARDD GOFFA

Yn 1994 agorwyd gardd ym Mynwent y Gorllewin mewn ymateb i angen cynyddol i deuluoedd yng ngorllewin Caerdydd i allu gwasgaru llwch eu hanwyliaid yn eu cymuned.

Mae gan yr ardd ddau gynllun coffa wedi'u gosod o amgylch ochr yr Ardd Goffa ar hyn o bryd. Mae pob cynllun yn cynnig plac gwenithfaen gydag arysgrif personol a dewis o ddyluniad wedi'u dangos ar y ffurflen atodedig. Gellir arysgrifio'r dyluniadau mewn aur neu liw o'ch dewis.
Darperir lle ar gyfer fâs y tu ôl i'r plac gan alluogi teuluoedd i osod blodau. Y prif wahaniaeth rhwng y ddau gynllun yw maint y plac: yng Ngherddi 1 a 2, mae'r plac yn 245mm (9 modfedd) o led ac yn 140mm (5 ½ modfedd) o uchder; yng Ngardd 3 mae'r plac yn 150mm (6 modfedd) o led ac yn 102mm (4 modfedd) o uchder. Fodd bynnag, mae gan gerddi 1 a 2 welyau blodau a gynhelir gan y Gwasanaethau Profedigaeth.
Nodwch faint y plac o'ch dewis ar y ffurflen atodedig.

Mae'r ardd wasgaru wedi'i hamgylchynu gan lwybr addurnol gydag ardaloedd eistedd tawel, gan roi man tawel yn yr ardd goffa a chanolbwynt i deuluoedd ymweld ag ef.

Y ffi ar gyfer y plac a'r brydles am DDENG mlynedd gyda fâs yw £260.00. Os hoffech gael dyluniad y gost yw £320.00.

Dylech ganiatáu cyfnod o tua wyth wythnos er mwyn i'r cais gael ei brosesu a'r plac gael ei osod yn yr ardd. Cysylltir â chi ar ôl i'r plac gael ei osod yn ei le.

Cysylltwch â'r Rheolwr Coffaol ar 029 2054 4820 i drafod unrhyw ymholiadau a allai fod gennych.

FFURFLEN GAIS AM BLAC COFFA GWENITHFAEN

ENW(AU)'R YMADAWEDIG (CYFENW).....

(ENW CYNTAF).....

Yr wyf i, yr YMGEISYDD (Mr, Mrs, Miss, Ms).....

O.....

.....

.....

Rhif Ffôn :(Cod Ardal.....)(.....….....)

drwy hyn yn gofyn i'r Is-adran Gwasanaethau Profedigaeth gyflenwi a gosod plac gwenithfaen yn yr ardd goffa.
Hoffwn gael arysgrif ar y plac fel yr amlinellir ar y ffurflen archeb a gwblhawyd.

CYTUNDEB Rwy'n deall yn llwyr y bydd fy hawl i godi'r plac coffa yn dod i ben ar ôl **10 MLYNEDD** o'r dyddiad y llofnodir y Cytundeb hwn, oni byddaf yn gwneud cais i'r Is-adran i adnewyddu'r hawliau a roddir ac y telir y ffi briodol cyn y dyddiad dod i ben.

Dyddiad ..... Llofnod yr ymgeisydd .....

Ffi ar gyfer y plac..... (Dylid amgáu hysbysiad talu gyda'r archeb a'i wneud yn daladwy i Gyngor Sir Caerdydd)

Rhif y Dderbynneb …….

AT DDEFNYDD SWYDDFA'N UNIG

DYDDIAD DOD I BEN..... GARDD GOFFA..... RHIF Y PLAC.....

DYDDIAD Y CODIR WRTH YR YMYLFAEN.....

Cwblhau'r grid arysgrif (drosodd):

1. Yr ardal lwyd yw lle rhoddir y dyluniad, os dewisir un. Peidiwch ag ysgrifennu yma os ydych wedi dewis dyluniad.
2. **COFIWCH GYNNWYS GOFOD YN EICH ARYSGRIF.** Mae gofod yn cyfrif fel llythyren neu rif.
3. Byddwn yn gosod y testun yng nghanol y plac; dim ond canllaw yw'r blwch hwn er mwyn eich helpu i ddewis eich arysgrif.
4. Nodwch os ydych am i unrhyw ddyluniad fod yn aur neu mewn lliw. Ar blaciau wedi'u cerflunio mae'n rhaid iddo fod mewn cerflun.
5. Mae gan Gerddi 1 a 2 lefydd ar gael lle mae prydlesi blaenorol wedi dod i ben.
6. Nifer cyfyngedig sydd ar gael ym mhob cynllun. Gosodir placiau pan fydd lle ar gael.

Mae mynwent y gorllewin yn cynnig dau fath gwahanol o blac coffa gwenithfaen. Nodwch yr opsiwn sydd orau gennych.

Gerddi Coffa y Gorllewin 1 a 2

☐ Ticiwch yma

Gardd Goffa y Gorllewin 3

☐ Ticiwch yma

	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	16	17	18	19	20
LLINELL 1																				
LLINELL 2																				
LLINELL 3																				
LLINELL 4																				
LLINELL 5																				
LLINELL 6																				

☐ Cerflun/Aur/ Lliw

☐ Cerflun/Aur/ Lliw

☐ Cerflun/Aur/ Lliw

☐ Cerflun/Aur/ Lliw

☐ Cerflun/Aur/ Lliw



☐ Cerflun/Aur/ Lliw

☐ Cerflun/Aur/ Lliw

☐ Cerflun/Aur/ Lliw

Mae'r Plac Coffa ar gael fel **<u>CERFLUN</u> (Llythrennau wedi Codi)** ac **<u>AUR</u> <u>(Llythrennau wedi'u Hysgythru)</u>**. **(Ticiwch)**